

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Tachwedd 30^{ain}, 2012

Presennol

*Mrs Williams, Miss Llwyd,
Robert Gorman, Gwenllian Thomas,
Sara Fflur Griffiths, Dylan Skym,
Sara ap Robert John, Rhianedd Owen,
Llŷr Eirug, Erin Davies,
Elen Llywelyn Evans.*

Absennol

Dylan James-Williams

Agorodd Robert Gorman y Cadeirydd y Cyfarfod am 11.50yb, gan ddiolch i bawb am ddod.

Agenda

1. Gêmau amser chwarae gwlyb i'r dosbarthiadau

Gan fod y tywydd yn oerach ac yn fwy gwlyb y dyddiau hyn, dywedodd nifer o aelodau'r Cyngor Ysgol y byddai hi'n syniad da cael mwy o gêmau yn y dosbarthiadau yn ystod amser chwarae. Mae'r Cyngor Ysgol yn mynd i feddwl am syniadau i godi arian er mwyn cael gêmau newydd, neu ofyn i blant ac athrawon ddod â gêmau dydyn nhw ddim yn chwarae gyda nhw nawr i mewn i'r ysgol.

2. Y sied feics

Mae rhai o fechgyn Blwyddyn 6 wedi bod yn cwyno am y sied feics oherwydd fe gafodd un o'r bechgyn feic newydd a nawr mae'r metal o'r bariau wedi crafu'r paent oddi ar ei feic newydd. Penderfynom y byddem yn codi hyn gyda Mr Williams.

3. Stondin smwddis

Mae rhai o'r plant yn ein dosbarthiadau wedi bod yn gofyn am stondin smwddis ond os byddwn ni yn cael stondin byddwn yn ei agor yn yr haf. Fe fyddwn yn trafod hyn yn agosach at yr haf.

4. Ystafelloedd newid/Rheolau i'r toiledau

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn meddwl efallai y byddai'n syniad da cael ystafelloedd newid yn yr ysgol yn lle bod y plant sy'n dawnsio neu'n gwneud gymnasteg yn y neuadd yn gorfod mynd yr holl ffordd lawr i'r pafiliwn i newid a rhedeg nôl lan. Fe fuom ni hefyd yn trafod creu rheolau i'r toiledau oherwydd bod rhai disgyblion ddim yn parchu'r toiledau yn ddigon da (e.e. papur tŷ bach ar hyd y lle, gadael y tapiau i redeg, ayyb).

5. Codi arian i Hillcrest a Plant Mewn Angen

Diolchodd Robert i aelodau'r Cyngor Ysgol am eu help wrth gasglu arian i'n casgliad dyngarol eleni, sef elusen Hillcrest, ac ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Cododd yr ysgol dros £90 i Hillcrest a dros £600 i Blant Mewn Angen.

6. Trafod Syniadau o'r Blwch Syniadau

- Cais am fwy o lyfrau darllen am anifeiliaid ym Mlwyddyn 6J.
- Bydd Robert yn atgoffa plant CA2 am y Blwch Syniadau yn y Gwasaneth yr wythnos nesaf.

7. Bocsys 'Operation Christmas Child'

Dyweddodd ambell aelod y bydden nhw'n hoffi gweld yr ysgol yn anfon bocsys esgidiau yn cynnwys anrhegion Nadolig i blant mewn gwledydd tlawd (e.e. Operation Christmas Child). Byddwn yn cynnig y syniad i Mr Williams cyn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 14^{eg} o Ragfyr 2012

Cofnodion gan Sara Fflur (Ysgrifenyddes)